

FFORDD ANODD Y GROES

Darllen: Luc 6:48–49

Dywedodd Iesu lawer o wirionedd yn y ddameg am y tŷ ar y graig a'r tŷ ar y tywod. Ceir yma gyferbyniad rhwng y gŵr sy'n rhoi pwyslais ar 'ddiogelwch yr Anodd' a'r gŵr a gaiff ei lygad-dynnu gan 'anwadalwch yr Hawdd'. Dweud mewn geiriau eraill a wna Iesu Grist ei fod ef yn cynnig, ar hyd ffordd anodd, y Groes yn ddiogelwch. 'Dilynwch fi ac fe fedrwch wynebu'r stormydd. Gwadwch fi, ac fe fydd trybini o'ch blaen.' Dyna osodiad anodd. Ond mae holl hanes yn esbonio'r dywediad ac yn ategu'r hyn a lefarodd Iesu.

John Stuart Mill a ddywedodd lawer blwyddyn yn ôl bellach na all unrhyw un gael gwell canllaw i'w fywyd na byw yn y fath fodd fel y byddai Iesu yn dweud wrtho, 'Da was, da a ffyddlon'. Ond y mae cymaint o bobl o hyd yn penderfynu fod yn well ganddynt adeiladu ar y tywod na'r graig. Y mae'r dasg yn anodd. Rhaid aberthu. Dywedodd un unigolyn craff: 'Ni ddaeth Iesu Grist i'r byd i wneud bywyd yn hawdd ond i wneud dynion yn fawr eu cyraeddiadau'. Nid cynnig ffordd hawdd a wnaeth y Crist ond cynnig ffordd y Groes, sef Ffordd y Bywyd. Ac fe anghofir ansawdd y ffordd ym muddugoliaeth y Pasg. Yr anodd sy'n tynnu'r gorau allan o bob person. Petaem yn mynd i bysgota i Lyn Tegid ac yn dal pysgodyn bob dydd o'r flwyddyn, byddai pysgota wedi mynd yn dasg rhy hawdd o lawer. Disgwylir i ni frwydro'n galed a chael yn y diwedd y fuddugoliaeth lwyr, er i ni fethu ar brydiau. Iago, brawd Iesu, a ddywedodd: 'A byddwch wneuthurwyr y Gair ac nid gwrandawyr yn unig'.

'Mi rodiaf drwy gymorth ei Ras
y llwybr a gerddodd efe;
nid rhyfedd os gwawdir y gwas,
cans gwawd gafodd Arglwydd y ne.'

Cerddwn yn ôl traed Iesu ar lwybrau bywyd o ddydd i ddydd, hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu ffordd anodd y Groes.

D. Ben Rees